*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1190 (Cy.126)

# CYFLOGAETHA HYFFORDDIANT, CYMRU

## Rheoliadau Prentisiaethau (Dyroddi Tystysgrifau Prentisiaeth) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *20 Mai 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *23 Mai 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *23 Mehefin 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 7, 8 a 9 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Prentisiaethau (Dyroddi Tystysgrifau Prentisiaeth) (Cymru) 2013 a deuant i rym ar 23 Mehefin 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009.

### Y dull o wneud cais am dystysgrif brentisiaeth

**3.** At ddibenion gwneud cais am dystysgrif brentisiaeth o dan adrannau 7 ac 8 o'r Ddeddf, rhaid i berson gyflwyno cais yn ysgrifenedig.

### Codi ffi am ddyroddi tystysgrif brentisiaeth

**4.**—(1) Mae awdurdod ardystio Cymru(**2**) wedi ei awdurdodi i godi ffi am ddyroddi tystysgrif brentisiaeth ar y person sy'n gwneud cais am dystysgrif brentisiaeth.

(2) Ni chaniateir i swm y ffi y caiff awdurdod ardystio Cymru ei chodi am ddyroddi tystysgrif brentisiaeth fod yn fwy na £30, neu'r gost yr aed iddi gan awdurdod ardystio Cymru er mwyn dyroddi'r dystysgrif brentisiaeth, pa swm bynnag sydd isaf.

(**1**) 2009 p.22.
(**2**) Gorchymyn Prentisiaethau (Dynodi Awdurdod Ardystio Cymru) 2013 O.S. S.I. 2013/1191 (Cy.127).

**Darparu copïau o dystysgrifau prentisiaeth**

**5.**—(1) Rhaid i awdurdod ardystio Cymru ddarparu copi o dystysgrif brentisiaeth i'r person y dyroddwyd y dystysgrif brentisiaeth wreiddiol iddo pan fo'r person hwnnw yn cyflwyno cais yn ysgrifenedig i awdurdod ardystio Cymru.

(2) Mae awdurdod ardystio Cymru wedi ei awdurdodi i godi ffi am ddarparu copi o dystysgrif brentisiaeth.

(3) Ni chaniateir i swm y ffi y caiff awdurdod ardystio Cymru ei chodi am ddarparu copi o dystysgrif brentisiaeth fod yn fwy na £30, neu'r gost yr aed iddi gan awdurdod ardystio Cymru er mwyn darparu'r dystysgrif brentisiaeth, pa swm bynnag sydd isaf.

*Jeff Cuthbert*
O dan awdurdod y Gweinidog Addysg a Sgiliau,
un o Weinidogion Cymru

20 Mai 2013

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â dyroddi tystysgrifau prentisiaeth o dan adrannau 7 ac 8 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p.22) ("y Ddeddf"). Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o'r broses o roi'r rhaglen brentisiaethau statudol yn Rhan 1 o Bennod 1 o'r Ddeddf ar waith.

Mae rheoliad 3 yn rhagnodi'r dull o wneud cais am dystysgrif brentisiaeth o dan adrannau 7 ac 8 o'r Ddeddf. Rhaid i berson gyflwyno cais yn ysgrifenedig. Mae rheoliad 4 yn awdurdodi awdurdod ardystio Cymru i godi ffi am y gost o ddyroddi tystysgrif brentisiaeth. Ni chaniateir i'r ffi honno fod yn uwch na'r swm a nodir yn y Rheoliadau. Mae rheoliad 5 yn gosod dyletswydd ar awdurdod ardystio Cymru i ddarparu copi o dystysgrif brentisiaeth i'r personau y dyroddwyd y dystysgrif brentisiaeth wreiddiol iddynt, ac yn awdurdodi awdurdod ardystio Cymru i godi ffi am y gost o ddarparu tystysgrif brentisiaeth. Ni chaniateir i'r ffi honno fod yn uwch na'r swm a nodir yn y Rheoliadau.